BWRDD DIOGELU CWM TAF
CWM TAF SAFEGUARDING BOARD

BDCT
BWRDD DIOGELU CWM TAF

CTSB
CWM TAF SAFEGUARDING BOARD

# ADRODDIAD BLYNYDDOL
# ANNUAL REPORT

## 2016 - 2017



# Cynnwys


Rhagair  - Cyd-Gadeiryddion Bwrdd Diogelu Cwm Taf ........................3

Beth ydy Diogelu yng Nghwm Taf? ....................................................4

Diogelu Oedolion yng Nghwm Taf .....................................................6

Diogelu Plant yng Nghwm Taf .........................................................14

Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf ..............................................23

Swyddogaethau Diogelu ar y Cyd.........**Error! Bookmark not defined.**

Rheoli Ein Hadnoddau yn 2016/17 ..................................................36

Blaenoriaethau ar gyfer 2017/18 .....................................................36

Ydych chi'n pryderu am rywun? ......................................................37

Rhestr Termau.................................................................................38

# Rhagair - Cyd-Gadeiryddion Bwrdd Diogelu Cwm Taf

Croeso i Adroddiad Blynyddol Diogelu cyntaf Cwm Taf.


Yn 2016/17, mae'r Bwrdd Diogelu Oedolion a'r Bwrdd Diogelu Plant, ar y cyd â'r Hwb Diogelu Amlasiantaeth, wedi parhau i gydweithio i ddiogelu pobl o bob oed. O ganlyniad i hyn, daeth yr aml-asiantaeth rhanbarthol ar y cyd sef Bwrdd Diogelu Cwm Taf.

Mae'r Adroddiad yma yn amlygu'r gwaith a gyflawnodd y Bwrdd yn ystod 2016/17 tuag at ein nod cyffredinol. Ein nod yw sicrhau bod pobl Cwm Taf yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth, esgeuluso neu fathau eraill o niwed. Dim ond trwy ein partneriaeth gref y gellir cyflawni hyn, lle mae holl asiantaethau'r Bwrdd yn gweithio gyda'i gilydd yn rhagweithiol ac yn gynhyrchiol.

Eleni, mae ein partneriaid wedi dangos eu hymrwymiad i arferion diogelu aml-asiantaeth hyd yn oed yn fwy drwy ffurfioli eu cyfraniadau ariannol i gynorthwyo gweithrediad effeithiol y Bwrdd. Mae hyn wedi sicrhau bod strwythur yn ei le i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014.

Rydyn ni'n parhau i chwilio am gyfleoedd i ddatblygu a gwella diogelu yng Nghwm Taf. Rydyn ni'n cydnabod y gallen ni ond cyflawni hyn drwy gydweithio effeithiol. Felly, byddwn ni'n parhau i gydweithio ag asiantaethau partner, Llywodraeth Cymru, a phartneriaethau a byrddau diogelu eraill i wella ymarfer a rhannu dysgu.

Rydyn ni hefyd yn ymdrechu i ymgysylltu â phlant ac oedolion ac yn cynnig cyfleoedd iddyn nhw i gymryd rhan yn ein gwaith. Hoffen ni annog unrhyw un sy'n dymuno cymryd rhan i gysylltu â'n Huned Rheoli Busnes ar 01443 484523 neu diogelucwmtaf@rctcbc.gov.uk <mailto:cwmtafsafeguarding@rctcbc.gov.uk>





# Beth ydy Diogelu yng Nghwm Taf?

Mae diogelu yn cynnwys **amddiffyn** plant ac oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, esgeulustod neu fathau eraill o niwed a'u **hatal** rhag bod mewn perygl o gael eu cam-drin, esgeulustod neu fathau eraill o niwed.

Diffiniad 'oedolion mewn perygl' yw'r rhai sydd ag anghenion am ofal a chymorth ac, o ganlyniad i'r anghenion yma, dydyn nhw ddim yn gallu amddiffyn eu hunain rhag camdriniaeth nac esgeulustod, na'r risg ohono. Mae'r term gofal a chymorth yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r help sydd ei angen ar rai oedolion er mwyn byw a gwella eu hansawdd bywyd.

**Cam-drin** yw pan fydd rhywun yn cael eu cam-drin yn gorfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu'n ariannol. Mae cam-drin ariannol yn cynnwys:-

- arian neu eiddo arall yn cael ei ddwyn;
- rhywun yn cael ei dwyllo;
- rhywun yn cael ei roi dan bwysau o ran materion arian neu eiddo arall;
- arian neu eiddo arall yn cael ei gamddefnyddio.

Ystyr **esgeuluso** yw methiant o ran cwrdd ag anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu seicolegol sylfaenol. Mae'n debygol y bydd amhariad i les yr unigolyn o ganlyniad i'r methiant yma.

Mae Cwm Taf yn cynnwys ardaloedd awdurdod lleol Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf (RhCT), sef poblogaeth o tua 300,000.

Mae diogelu yng Nghwm Taf dan oruchwyliaeth Bwrdd Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf ('y Bwrdd' o hyn ymlaen), sydd â chyfrifoldeb dros y canlynol:

- Diogelu Oedolion
- Diogelu Plant
- Hwb Diogelu Amlasiantaeth (MASH)

Nodir cyfrifoldebau a swyddogaethau'r Bwrdd yn y canllawiau statudol o dan Ran 7 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae ganddo'r cyfrifoldeb cyffredinol ar gyfer herio asiantaethau perthnasol mewn ardal fel bod;

Mesurau effeithiol ar waith i amddiffyn plant ac oedolion mewn perygl sy'n dioddef niwed neu a all fod mewn perygl o ganlyniad i gam-drin, esgeuluso neu fathau eraill o niwed, a

Cydweithredu rhyngasiantaethol effeithiol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau amddiffyn a rhannu gwybodaeth.

## i. Pwy yw Aelodau o'r Bwrdd Diogelu?

Partner Arweiniol y Bwrdd yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae'r aelodaeth yn cydymffurfio â'r canllawiau a gyhoeddir o dan Ran 7 (Adran 134(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.) Mae Atodiad 1 yn dangos rhestr o'r aelodau.

## ii. Beth oedd y nod ar gyfer 2016/17?

Cyhoeddodd y bwrdd ddau Gynllun Blynyddol ar Fawrth 31 2016, sy'n nodi'r blaenoriaethau ar gyfer diogelu oedolion ac ar gyfer diogelu plant yn 2016/17. Cytunodd holl asiantaethau partner y Bwrdd ar y blaenoriaethau yma mewn Diwrnod Datblygu'r Bwrdd yn gynharach yn 2016.

Mae modd gweld y Cynlluniau Blynyddol ar gyfer 2016/17 ar www.cwmtafsafeguarding.org neu drwy gysylltu â'r Uned Rheoli Busnes Diogelu ar 01443 484524.

O ran strwythur y Bwrdd, y deilliant y cytunwyd arno ar gyfer 2016/17 oedd:

***I gael strwythur trefniadau sefydledig o ran strwythur a llywodraethu ar waith, sy'n cefnogi ei weithredu'n effeithiol a sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.***

<u>Sut y cafodd hyn ei gyflawni?</u>

Mae'r Bwrdd wedi bod yn gweithredu fel Bwrdd ar y cyd ar gyfer plant ac oedolion ers 2015. Mae yna Gylch Gorchwyl gyda diffiniad clir, yn ogystal â phroffiliau rôl ar gyfer aelodau o'r Bwrdd er mwyn sicrhau bod pob asiantaeth sy'n cael ei chynrychioli yn hyrwyddo ei gweithrediad effeithiol.

Mae swyddogaethau'r Bwrdd wedi'u gweithredu trwy nifer o bwyllgorau ac is-grwpiau sy'n eistedd o fewn y strwythur cyffredinol. Mae yna fframwaith rheoli cyflawniad a risg ar waith i alluogi grwpiau yma i adrodd ar faterion allweddol i'r Bwrdd.

Yr Uned Rheoli Busnes Diogelu sy'n cefnogi'r Bwrdd. Mae hyn yn darparu cymorth rheoli, cydlynu a gweinyddu effeithiol er mwyn sicrhau y cydymffurfir â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae strwythur y bwrdd, gan gynnwys yr Hwb Diogelu Amlasiantaeth, wedi'i nodi yn Atodiad 2.

# Diogelu Oedolion yng Nghwm Taf

***EIN GWELEDIGAETH***

***I sicrhau bod oedolion yng Nghwm Taf, dros 18 oed, yn cael eu hamddiffyn rhag cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed, ac yn cael eu hatal rhag bod mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed, a'u bod nhw'n byw mewn amgylchedd sy'n hybu eu lles.***

***Bydd y Bwrdd yn ymgysylltu ag oedolion, ac yn gwrando ar eu barn.***

## i. Beth oedd yn nod ar gyfer 2016/17?

Nododd y Bwrdd y canlyniadau blaenoriaeth canlynol mewn perthynas â diogelu oedolion am 2016/17:

Mae'r Bwrdd yn rhagweld ac yn nodi lle y gall fod grwpiau penodol o oedolion mewn perygl sydd angen cael eu diogelu, ac mae'n gweithio gyda darparwyr gwasanaethau er mwyn datblygu adnabod cynharach a gwasanaethau ataliol.

Mae'r Bwrdd yn cael ei sicrhau bod arferion a gweithdrefnau effeithiol amlasiantaeth yn cael eu gweithredu, sydd wedi'u cefnogi gan systemau sicrhau ansawdd a rhannu gwybodaeth cadarn

## ii. Sut y cafodd ein blaenoriaethau eu cyflawni?

Mae gan y Bwrdd strwythur cadarn o Is-Grwpiau ar waith. Bydd y strwythur yma'n cael ei adolygu a'i wella'n barhaus er mwyn cynorthwyo darpariaeth ei amcanion a blaenoriaethau allweddol.

Y Bwrdd sy'n canolbwyntio ar y cyfeiriad strategol ar gyfer diogelu yng Nghwm Taf, drwy ddwyn asiantaethau partner i gyfrif ar effeithiolrwydd y mesurau diogelu. ***Y Pwyllgor Gweithredol i Oedolion (AOp) sy'n goruchwylio'r busnes mewn perthynas ag oedolion sydd mewn perygl.*** Mae'r AOp yn gyfrifol am weithredu Cynllun Gwaith Blynyddol, sy'n cael ei gefnogi a'i weithredu ymhellach gan Is-Grwpiau'r Bwrdd.

## iii. Beth gyflawnon ni o ran diogelu oedolion yn 2016/17?

### DIOGELU GRWPIAU PENODOL O OEDOLION MEWN PERYGL

### GWASANAETHAU ATALIOL

**Pam oedd hyn yn Flaenoriaeth?**

Mae Rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn disgrifio swyddogaeth y Bwrdd; 'rhagweld a nodi lle y gall fod grwpiau penodol o oedolion mewn perygl sydd angen cael eu diogelu a gweithio gyda darparwyr gwasanaethau er mwyn datblygu adnabod cynharach a gwasanaethau ataliol.'

**Beth gyflawnon ni mewn perthynas â'r Flaenoriaeth yma?**

Cynhaliwyd adolygiad Bwrdd o wasanaethau ataliol y trydydd sector yng Nghwm Taf ym mis Hydref 2016. Nodwyd y gwasanaethau ataliol canlynol:

- Gwasanaeth 'dod o hyd i grŵp' DEWIS, sy'n cynnwys gwasanaethau'r trydydd sector i bob oed yng Nghwm Taf.
- Mae gan Gydlynwyr Cymunedol y Gronfa Gofal Canolraddol wybodaeth am wasanaethau'r trydydd sector ar gyfer oedolion 50 oed a hŷn, gan gynnwys micro-fapio ardaloedd unigol ar draws Cwm Taf.
- Gwasanaethau Cefnogi Pobl - yn darparu sawl math o gymorth sy'n gysylltiedig â thai i oedolion sy'n 18 oed a hŷn, gan gynnwys cyn denantiaeth, tenantiaeth, llety brys, gwasanaethau iechyd meddwl a chymorth fel y bo angen.
- Cyswllt Adfer - Carfanau Iechyd Meddwl yn y Gymuned - cymorth ar gyfer unigolion sy'n manteisio ar y gwasanaethau, gan gynnwys Street Smart ac ymyrraeth argyfwng digartrefedd.
- Cynghrair Henoed Cymru - cynghrair sy'n cynnwys 21 o fudiadau gwirfoddol cenedlaethol sy'n gweithio gyda phobl hŷn, ac i bobl hŷn.

Mae dolenni'r gwasanaethau hyn bellach ar wefan y Bwrdd: www.cwmtafsafeguarding.org

**Beth sydd angen ei wneud mewn perthynas â'r Flaenoriaeth yma?**

Cynhelir gwaith pellach yn 2017/18 i werthuso effeithiolrwydd cefnogaeth ataliol i oedolion yng Nghwm Taf.

### DIOGELU POBL HŶN SY'N BYW MEWN CARTREFI GOFAL

**Pam oedd hyn yn Flaenoriaeth?**

Yn 2015/16, cartrefi gofal ym Merthyr Tudful oedd y categori lle uchaf lle honnwyd bod camdriniaeth yn digwydd, a'r ail uchaf yn RhCT.

Ym mis Tachwedd 2015, cynhaliodd y Bwrdd weithdy i dderbyn gwybodaeth am yr adolygiad ar adroddiad 'Operation Jasmine - Chwilio am Atebolrwydd' ynghylch camdriniaeth mewn cartrefi gofal mewn awdurdod lleol cyfagos. Arweiniodd hyn at ddatblygiad cynllun gweithredu gwella ar gyfer y Bwrdd.

**Beth gyflawnon ni mewn perthynas â'r Flaenoriaeth yma?**

Yn 2016 cryfhaodd y Bwrdd y cysylltiadau rhwng y camau gwella a nodwyd yn dilyn y gweithdy Operation Jasmine ac Adolygiad Cartrefi Gofal y Comisiynydd Pobl Hŷn: Lle i'w Alw'n Gartref. Mae'r camau gweithredu penodol a gyflawnwyd yn ymwneud â:

Defnyddio cyfleoedd i rannu arferion da ymhlith darparwyr Cartrefi Gofal

Gwneud cysylltiadau gyda'r gymuned a'r trydydd sector fel ffynhonnell gymorth

Atgyfnerthu esgeuluso emosiynol fel ffurf o gamdriniaeth

Defnydd effeithiol o eiriolaeth i gefnogi pobl i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed

Codi ymwybyddiaeth ymysg gweithwyr proffesiynol O bwysigrwydd gofal da a sicrhau bod hyfforddiant diogelu priodol yn cael ei ddarparu

**Beth sydd angen ei wneud mewn perthynas â'r Flaenoriaeth yma?**

Yn 2017/18 mae'r Bwrdd yn bwriadu gwneud rhywfaint o waith penodol o gwmpas pryderon diogelu mewn perthynas â phobl sydd heb allu meddyliol neu sy'n dioddef o ddementia.

## ATAL HUNANLADDIAD A HUNAN-NIWEIDIO

**Pam oedd hyn yn Flaenoriaeth?**

Yn y Cynllun Blynyddol 2016/17, nododd y Bwrdd yr angen i wneud cysylltiadau cliriach gyda'r Bartneriaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl er mwyn cefnogi'r flaenoriaeth yma.

**Beth gyflawnon ni mewn perthynas â'r Flaenoriaeth yma?**

Yn 2016/17, ymgysylltodd y Bwrdd â phartneriaethau eraill, gan gynnwys y Bartneriaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl. Drwy wneud hyn, ehangodd gwmpas y Protocol presennol fel bod y Protocol Ymateb Uniongyrchol i Ddigwyddiadau Critigol i gynnwys digwyddiadau critigol sy'n cynnwys oedolion sydd mewn perygl.

**Beth sydd angen ei wneud mewn perthynas â'r Flaenoriaeth yma?**

Bydd yr aelod o'r Bwrdd dros faterion Iechyd yn parhau i fod yn bwynt cyswllt rhwng Bwrdd Diogelu Cwm Taf a'r Bartneriaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl.

## TREFNIADAU DIOGELU RHAG COLLI RHYDDID (DoLS)

**Pam oedd hyn yn Flaenoriaeth?**


Bwriad y DoLS i ddarparu amddiffyniad cyfreithiol i bobl sydd heb y gallu i ganiatáu i'w trefniadau gofal eu hunain mewn cartrefi gofal ac sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid. Weithiau, amddifadu person o'i ryddid yw'r dewis gorau naill ai os nad yw'r gallu meddyliol  ganddo i ddod i benderfyniadau ynglŷn â'r math o ofal neu driniaeth y mae eu hangen, neu ei bod hi'n bosibl y byddai mewn perygl pe na fyddai'r gofal yn cael ei roi. Nod hyn yw ei atal ef rhag cael niwed.

**Beth wnaethom ni ei gyflawni mewn perthynas â'r Flaenoriaeth yma?**


Mae strwythur llywodraethu, sy'n eistedd o dan y Bwrdd, wedi'i sefydlu (gweler Atodiad 2) i sicrhau bod cyfrifoldebau'r asiantaethau partner yn cael eu cyflawni yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Yn 2016/17 cwblhawyd cyfanswm o 514 o asesiadau ac ailasesiadau DoLS gan Gyrff Goruchwylio Cwm Taf, hynny yw CBSRhCT, CBSMT a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Roedd hyn yn gynnydd o'i gymharu â ffigurau'r flwyddyn flaenorol (480 o asesiadau ac ail asesiadau i gyd). Serch hynny, mae nifer y ceisiadau newydd yn parhau i gynyddu, o 1,448 yn 2015/16 i 1,786 yn 2016/17. Felly mae'r rhestrau aros ar gyfer asesiadau yn dal i fod yn uchel. Mae hyn wedi'i gydnabod fel risg sy'n cael ei fonitro gan y Bwrdd. Mae camau lliniaru yn parhau i gael eu cyflwyno, gan gynnwys cynyddu nifer yr aelodau o staff i gynnal asesiadau.

Mae'r graffiau isod yn dangos y ffigyrau hyn.




**Ffigwr 1: Asesiadau DoLS yr ymgymerwyd â nhw**




**Ffigwr 2: Rhestrau aros ar gyfer Asesiadau DoLS**

## Beth sydd angen ei wneud mewn perthynas â'r Flaenoriaeth yma?

Yn ystod y flwyddyn i ddod bydd y fframwaith sicrhau ansawdd ar gyfer DoLS yn cael ei ddatblygu ymhellach a bydd y risgiau sy'n gysylltiedig â'r rhestrau aros ar gyfer asesiadau yn parhau i gael eu monitro.


## ARFER DIOGELU RHYNG-ASIANTAETH EFFEITHIOL

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles wedi peri i ni newid ein categorïau a'n dulliau cofnodi, o 2014-15 a 2015-16 gyda'r data ar gyfer 2016-17 sydd wedi'i nodi isod.


**ATGYFEIRIADAU AR GYFER 2016/17**

Cafwyd 3551 o adroddiadau diogelu ar gyfer RhCT yn 2016/17, aeth 581 ymlaen at ymholiad, a derbyniwyd 757 o adroddiadau diogelu ar gyfer Merthyr Tudful, a bu 43 ohonyn nhw'n mynd ymlaen at ymholiad.

Mae'r graff isod yn dangos nifer yr adroddiadau Diogelu a dderbyniwyd ym Merthyr Tudful.




Mae'r graff isod yn dangos nifer yr adroddiadau Diogelu a dderbyniwyd yn Rhondda Cynon Taf.



Roedd y cynnydd yn yr adroddiadau ar gyfer 2016/17 yn ganlyniad i ddyletswydd adrodd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a'r newidiadau sydd wedi bod o ran cofnodi Oedolion mewn Perygl.

Y categori cam-drin uchaf ar gyfer 2016-17 oedd cam-drin Emosiynol / Seicolegol a'r lle mwyaf cyfarwydd ar gyfer y math yma o gam-drin oedd mewn cartrefi'r unigolion.

Cafodd y risg ei lleihau neu'i gwaredu'n gyfan gwbl adeg cau'r achos mewn 97.3% o'r ymholiadau yn RhCT ac yn 95.8% o'r ymholiadau ym Merthyr Tudful. Roedd y risg wedi'i leihau neu wedi mynd yn gyfan gwbl ar gyfer 97.3% o ymholiadau yn RhCT a 95.8% o ymholiadau ym Merthyr Tudful. Mae hyn yn welliant o'i gymharu â 96.15% ar gyfer RhCT a 95% ar gyfer Merthyr Tudful yn 2015/16.

## POLISÏAU A GWEITHDREFNAU

Mae gan y Bwrdd Grŵp Protocolau a Gweithdrefnau. Mae'r grŵp yn sicrhau bod yna broses glir yn ei lle er mwyn datblygu ac adolygu protocolau a gweithdrefnau er mwyn diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl.

Yn ystod 2016/17, cafodd y ddogfen ganlynol ei datblygu i gefnogi a gwella diogelu oedolion effeithiol yng Nghwm Taf:

**Rheoli Ymchwiliadau Diogelu Oedolion ar Raddfa Fawr** - gwella cyfathrebu a chydlynu aml-asiantaethol ac yn sicrhau argaeledd adnoddau priodol pan amheuir cam-drin ar raddfa fawr. Bydd data monitro ar gael yn Adroddiad Blynyddol 2017/18.

## SICRHAU ANSAWDD

Mae gan yr Is-grŵp Sicrhau Ansawdd Oedolion gyfrifoldeb am gynnal archwiliadau, adolygiadau ac ymchwiliadau i achosion ac archwilio materion arfer i sicrhau bod arfer diogelu oedolion yn effeithiol.

Yn 2016/17, datblygwyd cynllun gwaith a rhaglen archwilio at ffibenion dysgu a gwelliannau mewn perthynas ag arferion da a'r meysydd i'w datblygu. Datblygwyd adnodd archwilio ac adnodd dysgu newydd i ategu hyn.

Mae'r dysgu yn dilyn yr archwiliadau hyn wedi cynnwys

1. Rôl hollbwysig y gweithiwr cymdeithasol / rheolwr gofal o ran diogelu oedolion
2. Rhwystrau a brofir gan yr oedolyn mewn perygl o ran adrodd am bryderon.
3. Yr angen i gynnwys defnyddwyr gwasanaeth a / neu eu teuluoedd trwy gydol y broses ddiogelu

4. Yr angen i atgyfeirio gweithwyr proffesiynol i sefydlu’r ffeithiau cyn rhoi gwybod am bryderon i’r Awdurdod Lleol.
5. Yr angen i wella prosesau gweinyddu, a bod gweithwyr proffesiynol yn blaenoriaethu cyfarfodydd diogelu fel y gallen nhw ddigwydd yn gyflymach.

Caiff pwyntiau dysgu o’r archwiliadau eu dosbarthu i staff trwy nifer o ddulliau gwahanol. Mae’r dulliau lledaenu gwybodaeth yn cynnwys drwy Aelodau o’r Grŵp, E-Fwletin Diogelu, gwefan Diogelu ac achlysurol dysgu.

**ADOLYGIADAU OEDOLION**

Mae'r Is-grŵp Adolygu Oedolion yn sicrhau bod y Bwrdd yn cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas ag Adolygiadau Ymarfer Oedolion ac adolygiadau priodol eraill lle mae oedolyn wedi marw, wedi cyflawni hunanladdiad neu wedi bod yn destun anafiadau a allai fod yn fygythiad i fywyd.

Yn 2016/17 ystyriodd yr Is-grŵp Adolygu Oedolion 7 achos newydd, sef cynnydd o 75% o'i gymharu â 2015/16. Mae’n debygol bod hyn o ganlyniad i'r trefniadau llywodraethu cryfach, gan gynnwys meini prawf cliriach ar gyfer atgyfeiriadau.

Dechreuodd dau Adolygiad Arfer Oedolion ac roedd un arall yn parhau o'r flwyddyn flaenorol. Bellach, mae dau wedi’u cwblhau, a byddan nhw’n cael eu cyhoeddi ym mis Awst 2017.

O'r 5 achos nad oeddent wedi symud ymlaen i Adolygiad Arfer Oedolion:

- Mae 2 yn aros am ymchwiliadau pellach.
- Roedd 1 yn destun ystyriaeth bellach gan Fwrdd Diogelu arall.
- Roedd 1 yn destun adolygiad gan y sefydliad darparu.
- Cafodd 1 ei drosglwyddo i’r Is-grŵp Sicrhau Ansawdd Oedolion ar gyfer adolygiad.

Mae’r Bwrdd hefyd wedi cynorthwyo i gwblhau un Adolygiad Dynladdiad yn y Cartref a gomisiynwyd gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Cwm Taf, sydd i fod i gael ei gyhoeddi yn 2017.

**GORCHMYNION AMDDIFFYN A CHYNORTHWYO OEDOLION**

Mae Pennod 4 y canllawiau statudol a gyhoeddwyd o dan Ran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi trefniadau’r gorchmynion sifil sydd i’w defnyddio gan awdurdodau lleol i alluogi swyddog awdurdodedig i siarad yn breifat â rhywun a amheuir o fod yn oedolyn mewn perygl.

Hyd yn hyn, ni cheisiwyd unrhyw orchmynion yng Nghwm Taf.

# Diogelu Plant yng Nghwm Taf

***EIN GWELEDIGAETH***

***Sicrhau bod plant a phobl ifainc yng Nghwm Taf, hyd at 18 oed, yn cael eu hamddiffyn rhag cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed, ac nad ydyn nhw mewn perygl o hynny, a'u bod nhw'n byw mewn amgylchedd sy'n hybu eu lles.***

***Bydd y Bwrdd yn ymgysylltu â phlant a phobl ifainc, a gwrando ar eu barn.***

## i. Beth oedd yn nod ar gyfer 2016/17?

Nododd y Bwrdd y canlyniadau blaenoriaeth canlynol ar gyfer diogelu plant yn 2016/17:

Mae plant a phobl ifainc sy'n arbennig o agored i niwed wedi cael eu hadnabod, ac mae'r Bwrdd wedi cael ei sicrhau bod mesurau ar waith i'w hamddiffyn a'u hatal rhag cael eu peryglu ymhellach.

Mae'r Bwrdd yn cael ei sicrhau bod arferion a gweithdrefnau effeithiol amlasiantaeth yn cael eu gweithredu, sydd wedi'u cefnogi gan systemau sicrhau ansawdd a rhannu gwybodaeth cadarn

## ii. Sut y cafodd ein blaenoriaethau eu cyflawni?

Mae gan y Bwrdd strwythur is-grŵp sefydledig yn ei le. Mae hyn yn cael ei adolygu a'i wella'n barhaus i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei amcanion a blaenoriaethau allweddol.

Er bod y Bwrdd yn canolbwyntio ar y cyfeiriad strategol ar gyfer diogelu yng Nghwm Taf, gan ddal asiantaethau partner i gyfrif ar effeithiolrwydd mesurau diogelu, y ***Pwyllgor Gweithredol Plant*** sy'n goruchwylio'r busnes mewn perthynas â phlant***.*** Y Pwyllgor Gweithredol Plant sy'n gyfrifol am weithredu Cynllun Gwaith Blynyddol sy'n cael ei gefnogi a'i weithredu ymhellach gan Is-Grwpiau'r Bwrdd.

## iii. Beth gyflawnon ni mewn perthynas â diogelu plant yn 2016/17?

### DIOGELU GRWPIAU PENODOL O BLANT

Yn ystod y Diwrnod Datblygu, nododd yr asiantaethau partner yr ardaloedd blaenoriaeth yn ymwneud â grwpiau penodol o blant a phobl ifainc sy'n agored iawn i niwed, ac yn sicrhau bod yna fesurau ar waith i'w diogelu ac i'w hatal rhag bod mewn unrhyw berygl pellach.

I gynorthwyo hyn, penodwyd Hyrwyddwyr er mwyn gweithredu fel ffocws cadarnhaol i'r Bwrdd mewn perthynas â'r maes blaenoriaeth perthnasol. Drwy hyn, gallen nhw sicrhau bod ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i effaith gweithgareddau a phenderfyniadau'r Bwrdd ar y grŵp penodol.

### ATAL HUNANLADDIAD A HUNAN-NIWEIDIO

**Pam oedd hyn yn Flaenoriaeth?**

Yn 2016/17, yn dilyn adolygiad partneriaeth Cwm Taf gyfan, cytunwyd i integreiddio gwaith llawn y Grŵp Llywio Lleihau Hunanladdiad a Hunan-niwed i drefniadau llywodraethu'r Bwrdd Diogelu. Mae hyn yn cynnwys monitro'r gwaith o gyflawni Strategaeth Llywodraeth Cymru 'Siarad â Fi 2. Mae gan y strategaeth yma gylch gorchwyl penodol ar gyfer y grŵp oedran dan 25 oed.

**Beth gyflawnon ni mewn perthynas â'r Flaenoriaeth yma?**

Roedd y camau gweithredu a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- Cyflwyno sesiwn codi ymwybyddiaeth / hyfforddiant ar sail amlasiantaethol.
- Cafodd y Protocol ar gyfer Ymateb Uniongyrchol i Ddigwyddiadau Critigol ei adolygu a'i ddiweddaru er mwyn mabwysiadu ymagwedd 'pob oedran'.
- Defnyddiwyd y Protocol unwaith yn ystod y flwyddyn i fynd i'r afael â'r risgiau'n gysylltiedig â 5 unigolyn a oedd yn peryglu eu hunain trwy eu hymddygiad. Rhoddwyd dull amlasiantaethol ar waith i ymdrin â'r materion hyn. Arweiniodd hyn at ganlyniadau cadarnhaol i bawb a oedd yn gysylltiedig.
- Mae Gwasanaeth Seicoleg Addysg Cwm Taf wedi rhoi cyngor i nifer o ysgolion mewn perthynas â digwyddiadau o hunan-niweidio bwriadol.

**Beth sydd angen ei wneud mewn perthynas â'r Flaenoriaeth yma?**

Bydd Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Bwrdd yn 2017/18, gyda phwyslais penodol ar gynnig cymorth i blant a phobl ifainc ag anghenion iechyd meddwl ac anghenion lles emosiynol.

Bwriedir adolygu'r grŵp darparu hyfforddiant ar gyfer 2017/18 i gynyddu'r nifer o sesiynau a gyflwynir.

## CAMFANTEISIO'N RHYWIOL AR BLANT

**Pam oedd hyn yn Flaenoriaeth?**

Mae mynd i'r afael â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE) yn flaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru. Yng Nghwm Taf mae hyn yn parhau i dderbyn sylw drwy gymryd y camau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu Rhanbarthol ar y cyd.

**Beth gyflawnon ni mewn perthynas â'r Flaenoriaeth yma?**

Mae gweithrediad y Cynllun Gweithredu CSE rhanbarthol wedi'i gefnogi'n llawn gan Hyrwyddwr CSE y Bwrdd a Gweithiwr Cymdeithasol Ymgynghorol CSE, a gafodd ei secondio i weithio gyda'r Bwrdd gan Barnardo's.

Cynhaliwyd asesiad o anghenion ac archwiliad o achosion CSE. Roedd hyn yn galluogi'r Bwrdd i rannu dysgu ac arweiniodd at weithredu'r camau canlynol:

Nodi'r angen i weithredu a gwella rheolaeth a chydlyniad ymateb aml-asiantaethol i bobl ifainc sydd mewn perygl o niwed oherwydd CSE. Bydd proses ddiwygiedig a gwell yn weithredol yng Nghwm Taf o fis Ebrill 2017.

Cyflwyno hyfforddiant ar CSE ac Ymddygiad Rhywiol Niweidiol a chynyddu ymwybyddiaeth a hyfforddiant staff o ran defnyddio adnodd asesu risg y Fframwaith Asesu'r Risg o Gamfanteisio Rhywiol.

Gweithgareddau ymgysylltu a chyfathrebu â gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd.

Mae hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth CSE wedi digwydd gydag asiantaethau ehangach megis cludiant, safleoedd trwyddedig, y sector gwirfoddol ac ysgolion.

Mae proses aml-asiantaeth (MACSE) wedi'i datblygu ar gyfer casglu gwybodaeth mewn perthynas â throseddwyr, lleoliadau a'n pobl ifainc mwyaf agored i niwed gyda'r bwriad o wella ffocws ymyriadau troseddol a diogelu.

**Beth sydd angen ei wneud mewn perthynas â'r Flaenoriaeth yma?**

Bydd materion Cam-Fanteisio'n Rhywiol ar Blant yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Bwrdd.

## ESGEULUSTOD

**Pam oedd hyn yn Flaenoriaeth?**

Gostyngodd canran y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant o dan y categori Esgeulustod o 44% i 42% ar gyfer RhCT ac o 28% i 25% ar gyfer Merthyr Tudful yn ystod 2016/17. Er gwaethaf hyn, Esgeulustod yw'r categori cam-drin uchaf ar gyfer RhCT, a'r ail gategori uchaf ar gyfer Merthyr Tudful.

**Beth gyflawnon ni mewn perthynas â'r Flaenoriaeth yma?**

Mae'r blaenoriaethau ar gyfer mynd i'r afael ag esgeulustod ar gyfer 2016/17 wedi canolbwyntio ar wella'r defnydd o'r Adnodd Asesu ar gyfer Esgeulustod ymhlith ymarferwyr. Mae hyn wedi nodi bod angen adolygu a diweddaru'r canllawiau sy'n ategu'r adnodd.

**Beth sydd angen ei wneud mewn perthynas â'r Flaenoriaeth yma?**

Bydd esgeulustod yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn y flwyddyn i ddod. Bydd angen diweddaru'r canllawiau sy'n cefnogi'r Adnodd Asesu Esgeulustod ac yn ymgorffori'r adnodd yn y Fframwaith Asesu Risg Amlasiantaethol Cwm Taf newydd (MARAF). Bydd hyn yn galluogi asiantaethau i weithio mewn modd sy'n fwy cyson â theuluoedd cymhleth.

## PLANT SY'N DERBYN GOFAL

**Pam oedd hyn yn Flaenoriaeth?**

Mae cyfran y plant sy'n derbyn gofal ar draws Cwm Taf dros draean yn fwy na chyfartaledd Cymru. Er y bydd wastad angen i ddiogelu a rhoi gofal i rai o'n plant, rydyn ni o'r farn y bydd modd i ni leihau nifer y plant sydd angen ymyriadau dwys yn y pendraw drwy gydweithio'n fwy effeithiol gyda'n hasiantaethau partner.

Roedd nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal ar 31 Mawrth 2017 yng Nghwm Taf fel a ganlyn:

**RhCT 690**

**Merthyr Tudful 145**

Pan fydd plentyn sydd dan ofal yr awdurdod lleol hefyd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, gelwir hyn yn statws deuol. Ar ddiwedd 2016/17, cafodd 45 o blant eu cofrestru fel statws deuol yn Rhondda Cynon Taf a 9 o blant ym Merthyr Tudful. Mae hyn yn ostyngiad o'i gymharu â 51 o blant yn RhCT a 7 ym Merthyr Tudful yn 2015/16.

Mae'r tabl isod yn dangos bod nifer cyfartalog y plant sydd yng ngofal yr awdurdod lleol wedi cynyddu ychydig ar draws Cymru. Serch hynny, er gwaethaf hyn, mae

nifer cyfartalog y plant sydd mewn gofal yr awdurdod lleol ar draws Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful wedi gostwng.

| (fesul 10,000 o'r boblogaeth) | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|
| **Cymru** | 91 | 89 | 90 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 130 | 124 | 124 |
| **Merthyr Tudful** | 140 | 131 | 113 |

Themâu ym Merthyr Tudful:

- Roedd cynnydd yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal, gan nodi bod y gwasanaeth yn ymwybodol ers peth amser am nifer fechan o deuluoedd lle'r oedd esgeulustod neu gam-drin domestig yn broblem.

Themâu yn RhCT:

- Cynnydd o 21% mewn derbyniadau yn ystod y cyfnod Ebrill 16-Mawrth 17, o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2015-16.
- Roedd 53% o'r derbyniadau yn y cyfnod yma yn ymwneud â phlant o dan 4 oed. (55% yn ystod y cyfnod Ebrill 16-Mawrth 17)
- Roedd 61% o'r derbyniadau yn agored am lai na 6 mis ar adeg derbyn gofal. (57% yn ystod y cyfnod Ebrill 16-Mawrth 17)

**Beth gyflawnon ni mewn perthynas â'r Flaenoriaeth yma?**

Gwnaed gwaith mewn perthynas â datblygu datganiad o fwriad am gyflawni canlyniadau cadarnhaol ar gyfer plant a phobl ifainc sy'n derbyn gofal.

Roedd hyn yn cynnwys digwyddiad ymgynghori gyda grŵp o bobl ifainc sy'n derbyn gofal. Arweiniodd hyn at gynhyrchu DVD. Roedd negeseuon y bobl ifainc yn gryf, a byddan nhw'n arwain blaenoriaeth yn nhermau darpariaeth. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Mae'n bwysig i chi allu siarad â rhywun y gallwch ymddiried ynddo e.e. rhiant maeth, athro, gweithiwr cymorth, ffrind sydd wedi cael profiad tebyg.
- Roedd pethau a fyddai'n ei wneud yn well yn cynnwys:
    - Ffotograffau ohonof fi fy hun fel babi
    - Gwaith Hanes Bywyd
    - Esbonio i mi pam yr wyf yn derbyn gofal
    - Siarad â rhywun arall sydd hefyd yn derbyn gofal

- Dywedodd y bobl ifanc y dylai pob person ifanc sy'n dechrau derbyn gofal dderbyn y cymorth canlynol:
    - Ffotograffau o'r lle y byddwch chi'n byw.
    - Cwrdd â'r rhiant maeth cyn symud i fyw yno.
    - Cael esboniad o'r hyn sy'n digwydd er mwyn iddyn nhw allu deall.

Mae'r Bwrdd wedi nodi rhai meysydd i'w datblygu sy'n gysylltiedig â lleoli plant a phobl ifainc yng Nghwm Taf o ardaloedd eraill. Mae un achos wedi arwain at

adolygiad sydd wedi dwysau a'i throsglwyddo i Fforwm Plant Diogel De Cymru gydag argymhelliad ar gyfer adolygiad trawsffiniol. Ymdriniwyd â phryderon pellach mewn perthynas ag achosion eraill trwy Grŵp Ymateb Uniongyrchol y Bwrdd.

**Beth sydd angen ei wneud mewn perthynas â'r Flaenoriaeth yma?**

Mae Strategaeth Ranbarthol ar gyfer Pobl Ifanc a Theuluoedd ar y Cyd Bartneriaeth Cwm Taf yn parhau i gael ei ddatblygu

Mae diogelu mewn perthynas â Phlant sy'n Derbyn Gofal yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Bwrdd. Mae ffocws penodol ar gyfer y flwyddyn i ddod ar ddiogelu'r plant a'r bobl ifainc sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r ardal, a'r sawl sydd wedi'u lleoli yng Nghwm Taf o awdurdodau lleol eraill.


## ARFER DIOGELU RHYNG-ASIANTAETHOL EFFEITHIOL

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd sicrhau bod asiantaethau'n gweithredu'n effeithiol wrth gyflawni eu cyfrifoldebau diogelu. Mae systemau ar waith i adolygu a herio'r cyfraniad a wneir ar sail ryngasiantaethol ar draws Cwm Taf.

Mae'r Hwb Diogelu Amlasiantaeth yn rhan annatod o sicrhau bod diogelu yng Nghwm Taf yn effeithiol. Yr Hwb Diogelu Amlasiantaeth yw'r cam cyntaf ar gyfer derbyn ac asesu'r holl atgyfeiriadau diogelu oedolion a phlant. Mae'r Bwrdd yn parhau i fonitro blaenoriaethau ac amcanion ar gyfer yr Hwb Diogelu Amlasiantaeth.

## CYFLAWNIAD DIOGELU PLANT

Yn ystod 2016/17, cynyddodd nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant 12% ar draws Merthyr Tudful, a gostyngodd y nifer 9% yn Rhondda Cynon Taf. Y grŵp oedran uchaf ar gyfer cofrestriadau ar draws Cwm Taf yw 0-4 oed.



Y nifer o ail-gofrestriadau ar gyfer plant sydd wedi cael 1 cyfnod cofrestru blaenorol yw 32% (132 o blant) ar gyfer Rhondda Cynon Taf a 23% (26 o blant) ar gyfer Merthyr Tudful ar gyfer 2016/17. Mae hyn wedi parhau'n gyson ar draws RhCT gyda chynnydd bach ar gyfer Merthyr Tudful o'i gymharu â 2015/16.

## GWEITHDREFNAU A PHROTOCOLAU

Mae gan y Bwrdd Grŵp Protocolau a Gweithdrefnau sy'n sicrhau bod proses glir yn ei lle ar gyfer datblygu ac adolygu protocolau a gweithdrefnau i ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl.

Yn ystod 2016/17, cafodd y dogfennau canlynol eu hadolygu / eu datblygu i ategu a gwella diogelu effeithiol i blant yng Nghwm Taf:

- Protocol ar gyfer Rheoli Hunan-niwed yn y Gymuned - ategu'r Strategaeth Lleihau Hunanladdiad a Hunan-niwed gan Bobl Ifainc yn Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful drwy ddarparu gwybodaeth ar gyfer gweithwyr proffesiynol ynglŷn â rheoli datgeliadau neu amheuon o hunan-niweidio mewn plant a phobl ifainc.
- Polisi Ysgolion ar gyfer Diogelu Plant - diwygiadau pellach wedi'u hymgorffori i ategu'r broses o ddiogelu mewn ysgolion
- Canllawiau a gwybodaeth ar gyfer Rhieni Maeth a Chynhalwyr (gofalwyr) sy'n berthnasau pan fo Cyhuddiad wedi'i wneud yn eich erbyn
- Protocol ar gyfer Ymateb i Achosion Heriol sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant - rhoi i ymarferwyr arweiniad ar y broses i'w dilyn mewn achosion lle dydy'r Cynllun Gofal a Chymorth i Ddiogelu Plant ddim yn lleihau'r risg i blentyn neu berson ifanc sydd ar y Gofrestr Diogelu Plant ac sy'n byw yn ardal Cwm Taf.

## SICRHAU ANSAWDD

Mae gan Is-grŵp Sicrhau Ansawdd i blant am gynnal archwiliadau, adolygiadau ac ymchwiliadau i achosion ac archwilio materion arfer er mwyn sicrhau bod arfer diogelu plant yn effeithiol ac yn gwella'n barhaus.

Yn ystod y flwyddyn, gweithredwyd rhaglen archwilio a oedd yn edrych ar sawl maes gwahanol, gan gynnwys:

- Archwiliadau achos amlasiantaethol – roedd y themâu a d
- daeth i'r amlwg yn cynnwys cam-drin domestig, camddefnyddio sylweddau, esgeulustod a chyfnodau cofrestru hir ac ailadroddus, materion trawsffiniol. Roedd cymhlethdod llawer o'r achosion hyn yn amlwg, ac yn sgil cyn daeth datblygiad y Protocol Achosion Heriol (a grybwyllwyd yn gynharach).
- Plant ar y gofrestr amddiffyn plant am fwy na 2 flynedd, cafodd archwiliad blynyddol ei gwblhau lle'r oedd enghreifftiau o arfer da wedi'u nodi.

- Cynnydd i’r niferoedd ar y gofrestr amddiffyn plant ym Merthyr Tudful yn ystod chwarter 3 (Hydref - Rhagfyr) – argymhellir cydweithio recommended collaboration rhwng y Gwasanaethau i Blant a’r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Oedolion a chymorth i rieni ifainc.
- Ail-gofrestru archwiliadau – themâu a ddaeth i’r amlwg yn cynnwys cam-drin yn y cartref a chamddefnyddio sylweddau
- Archwiliad meddygol blynyddol ar gyfer Diogelu Plant - gostyngiad yn y niferoedd ers 2011, o 153 yn 2011/12 i 81 yn 2015/16. Yn 2016/17 bu cynnydd bychan i 112.

Roedd gweithgareddau eraill i ddatblygu a gwella’r broses Sicrwydd Ansawdd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:
- Adolygwyd a diweddarwyd yr adnodd archwilio a'r prosesau ar gyfer cyflwyno adborth i ymarferwyr asiantaethau partner ar archwiliadau achos
- Trefniadau monitro wedi'u sefydlu mewn perthynas â phobl ifainc sy'n cael eu cadw mewn dalfa’r gorsafoedd heddlu dros nos
- Derbyniwyd 4 o gwynion a'u datrys mewn perthynas â chynadleddau amddiffyn plant, cynnydd o 2 ers 2015/16.
- Ystyriwyd 68 o achosion lle defnyddiodd yr heddlu eu pwerau diogelu i gymryd plant sydd mewn perygl - cynnydd o’i gymharu â 50 achos yn 2015/16.
- Daeth 8 o bobl ifainc i'r ddalfa am y tro cyntaf o'i gymharu â 4 o bobl ifainc yn ystod 2015/16.

**RHANNU'R HYN A DDYSGWYD**

Mae'r broses ar gyfer nodi a rhannu dysgu o ganlyniad i archwiliadau ac adolygiadau dysgu wedi gweld gwelliant pellach yn ystod y flwyddyn. Mae dulliau lledaenu gwybodaeth yn cynnwys Gwefan Diogelu Cwm Taf, drwy aelodau o’r grŵp yn eu hasiantaethau unigol, drwy'r E-Fwletin dwywaith y flwyddyn, a thrwy gyfarfodydd staff / fforymau ymarferwyr.

Mae'r themâu dysgu a nodwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

Ymdrin ag ymddygiad heriol sy’n gwaethygu mewn plant a phobl ifainc

Cymhlethdod rhai achosion a'r angen i reoli'r rhain ar sail aml-asiantaethol

Rhieni sy'n camddefnyddio alcohol a sylweddau

Yr angen i sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei glywed

Yr angen am gofnodi cywir a chyfoes

Roedd meysydd arfer da a nodwyd yn cynnwys:

- Codi pryderon cychwynnol a gweithredu arnyn nhw'n gyflym
- Cynhelir cyfarfodydd amlasiantaeth da i reoli achosion
- Agweddau o ymgysylltu'n dda â phlant a'u teuluoedd

## ADOLYGIAD YMARFER PLANT

Mae Grŵp Adolygu Plant y Bwrdd yn gyfrifol am ystyried yr holl farwolaethau plant ac anafiadau a allai fod yn fygythiad i fywyd plentyn neu sy'n achosi nam parhaol i ddatblygiad. Yr unig eithriadau yw plant sydd wedi marw o ganlyniad i salwch sy'n cyfyngu ar fywyd neu ddioddefwyr damweiniau ar y ffyrdd.

Lle mae'r meini prawf ar gyfer Adolygiad Ymarfer Plant yn cael eu bodloni bydd y Grŵp Adolygu Plant yn gwneud argymhelliad ffurfiol i Gyd-gadeiryddion y Bwrdd er mwyn iddyn nhw ymgymryd â'r adolygiad.

Yn 2016/17, ystyriwyd 17 achos gan gynnwys holl farwolaethau annisgwyl ymhlith plant, ond doedd dim un ohonyn nhw yn cwrdd â'r meini prawf i fod yn destun Adolygiad Ymarfer Plant. Dechreuodd dau Adolygiad Ymarfer Oedolion yn 2016 a sefydlodd y ddwy ymagwedd plentyn/oedolyn ar y cyd at ddysgu oherwydd oedran yr unigolion.

Cynhaliwyd un Adolygiad Arfer Plant yn 2015, ac fe'i cyhoeddwyd gan y Bwrdd yn 2016/17. Cynhaliwyd un Fforwm Ymarferwyr Aml-asiantaeth i ystyried yr anghenion dysgu mewn perthynas ag un achos nad oedd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer Adolygiad Arfer Plant.

Roedd yr anghenion dysgu a gafodd eu nodi ar gyfer yr achosion yma yn cynnwys:

Yr angen i'r Bwrdd ymgysylltu â'r gymuned, codi ymwybyddiaeth o faterion diogelu a sut i roi gwybod am bryderon. Mae hyn wedi'i gynnwys yn Strategaeth Gyfathrebu'r Bwrdd.

Rheoli achosion lle nad yw teuluoedd yn cydweithredu â phryderon diogelu - adolygir canllawiau a hyfforddiant.

Atgyfnerthu dyletswydd yr asiantaethau i roi gwybod am bryderon trwy gynnig hyfforddiant iddyn nhw.

Roedd meysydd arfer da a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- Ymatebolrwydd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- Cyfathrebu effeithiol rhwng partneriaid aml-asiantaeth
- Ymroddiad gweithwyr i gael effeithiau cadarnhaol i blant a phobl ifainc

# Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf (MASH)

***Ein Gweledigaeth***
***Sicrhau bod plant ac oedolion yn ardal Cwm Taf sy'n wynebu risg yn gallu byw bywydau diogel***

Cafodd Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf (MASH) ei roi ar waith yn llawn ar 7 Mai 2015. Cafodd y MASH (sydd wedi'i leoli yng Ngorsaf yr Heddlu, Pontypridd) ei sefydlu er mwyn gwella arfer o ran diogelu. Mae'r asiantaethau yn gweithio gyda'i gilydd mewn un safle i dderbyn yr holl atgyfeiriadau diogelu a rhannu gwybodaeth asiantaeth berthnasol er mwyn gwneud penderfyniadau ar y cyd.

Mae gweithgarwch y MASH yn cynnwys:

- Diogelu/Amddiffyn Plant
- Diogelu Oedolion sy'n Wynebu Risg
- Cam-drin Domestig (MARAC - Cynhadledd Amlasiantaethol ar gyfer Asesu Perygl)

Mae'r sefydliadau canlynol yn Bartneriaid Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
- Heddlu De Cymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
    - Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion
    - Gwasanaethau i Blant
    - Addysg
    - Cynhadledd Asesiad Risg Amlasiantaeth (MARAC)
    - Carfan ar Ddyletswydd ar gyfer Argyfyngau (EDT)
- Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru

Roedd amcanion gwreiddiol y MASH yn ymwneud â'r themâu canlynol:

Amcan Un: Gwella cyd-drefniant a chysondeb trothwyon/gwaith gwneud penderfyniadau pan fydd pryderon yn codi

Amcan Dau: Gwella amseroedd ymateb, gan arwain at ymyrraethau cynharach

Amcan Tri: Lleihau atgyfeiriadau ailadroddus

## i. Beth oedd y nod ar gyfer 2016/17?

Nododd y Bwrdd y canlyniadau gwella canlynol ar gyfer y MASH yn 2016/17:

- Cefnogir gweithrediad y MASH gan isadeiledd cynaliadwy sy'n hwyluso rheolaeth adeiladau, adnoddau a systemau yn effeithiol.
- Mae gan y MASH fframwaith y cytunwyd arno yn ei le. Diben y fframwaith yw mesur a gwerthuso perfformiad a chanlyniadau. Caiff hyn ei ategu gan brosesau sicrhau ansawdd i gefnogi gwelliant parhaus.
- Mae rhannu gwybodaeth effeithiol, prosesau cyson integredig ar gyfer pennu trothwyon yn gymorth o ran gweithredu'r MASH.

## ii. Sut y cafodd ein blaenoriaethau eu cyflawni?

Sefydlwyd Grŵp Gweithredol MASH i ddarparu'r cyfarwyddiad cyffredinol ar gyfer y MASH. Mae'r Grŵp yn goruchwylio ac yn gwerthuso gwaith Pwyllgor Gweithredol MASH wrth gyflawni'r nodau i wella diogelu a hyrwyddo lles plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl.

Sefydlwyd is-grŵp MASH i gefnogi datblygiad parhaus y MASH a sicrhau ei fod yn parhau i gyflawni ei nodau.

Mae'r strwythur yma yn rhan o lywodraethu cyffredinol Bwrdd Diogelu Cwm Taf (gweler Atodiad 2).

## iii. Beth gyflawnon ni mewn perthynas â MASH Cwm Taf yn 2016/17?

**<u>SEILWAITH CYNALIADWY AR GYFER LLETY, ADNODDAU A SYSTEMAU</u>**

- Sefydlu Pwyllgor Gweithredol ac Is-grŵp y MASH i gefnogi prosesau a systemau'r MASH
- Datrys materion TGCh penodol drwy ddefnyddio system newydd y llwyfan rhannu gwybodaeth amlasiantaethol (Mhub)
- Cynnal adolygiad cynhwysfawr o lety gydag argymhellion ar gyfer yr holl asiantaethau sy'n rhan o'r MASH. Yn dilyn hynny, dechreuodd gwaith addasu adeiladau i ehangu a gwella llety MASH erbyn hydref 2017

**<u>MESUR A GWERTHUSO CYFLAWNIAD A CHANLYNIADAU GYDA SICRHAU ANSAWDD I GEFNOGI GWELLIANNAU CYNNWYS</u>**

- Cynnal archwiliad i ymchwilio i ddata datgelu Plant Adran 47, o hyn nodwyd y camau gweithredu
- Cynnal archwiliad i edrych ar atgyfeiriadau ailadroddus ar gyfer Plant, o hyn nodwyd y camau gweithredu

- Wedi integreiddio perfformiad MASH yng nghardiau sgorio adrodd dangosyddion perfformiad Sicrhau Ansawdd y Bwrdd.

**RHANNU GWYBODAETH YN EFFEITHIOL, PROSESAU CYSON A DULL INTEGREDIG O RAN DULLIAU PENNU TROTHWYON**

- Cwblhau gwerthusiad amlasiantaeth o fapiau proses y MASH a chytunwyd ar ddull ar y cyd ar gyfer diwygiadau a gwelliannau
- Cynnal adolygiad/peilot sgrinio dulliau pennu trothwy'r plant sy'n cael eu hatgyfeirio i'r MASH. Arweiniodd hyn at y cynnig i ddatblygu dull pennu trothwy sengl Cwm Taf yn 2017/18

Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr atgyfeiriadau MASH a oedd yn bodloni'r trothwy ar gyfer amddiffyn plant, amddiffyn oedolion a cham-drin domestig risg uchel. Mae'r nifer o ddigwyddiadau yn debyg i ddata'r flwyddyn flaenorol, gyda chynnydd bychan yn gyffredinol.

| **Rhannu Gwybodaeth MASH Cwm Taf (Cyfanswm digwyddiadau Mhub)** | |
|---|---|
| **2015/16 (Dros 11 mis oherwydd dechreuodd MASH ym mis Mai 2015)** | 2236 |
| **2016/17 (12 mis)** | 2511 |

Mae'r data'n dangos y dulliau pennu trothwy a phrosesu pob math o atgyfeiriadau sy'n mynd i mewn i'r MASH trwy ddrws blaen yr asiantaethau. Cyfanswm y cyfeiriadau / cysylltiadau a gafodd eu prosesu gan y MASH ar gyfer 2016/2017 oedd **24,644**. Mae'r data yn ostyngiad o **90%** a seibiant yn y galw gan ddangos mai dim ond y cyfeiriadau gyda'r risg mwyaf sylweddol y cafodd eu prosesu drwy'r MASH.

**LLEIHAU ATGYFEIRIADAU AILADRODDUS (PLANT)**

Gwelwyd gostyngiad mewn atgyfeiriadau ailadroddus ar gyfer Amddiffyn Plant yn RhCT yn ystod ail flwyddyn MASH. Roedd hyn yn cwrdd ag amcan MASH i leihau cyfeiriadau ailadroddus. Mae atgyfeiriadau Merthyr Tudful wedi codi 0.43%, sef cynnydd bach, ond roedd y rhain yn briodol ac am resymau gwahanol.

| **Canran yr atgyfeiriadau Plant a oedd yn ailatgyfeiriadau o fewn 12 mis (CBS Rhondda Cynon Taf)** | |
|---|---|
| **Ebrill 2015 - Mawrth 2016** | 24.12% |
| **Ebrill 2016 - Mawrth 2017** | 20.53% |
| **Gostyngiad** | 3.59% |
| **Canran yr atgyfeiriadau a oedd yn ailatgyfeiriadau o fewn 12 mis (CBS** | |

| Merthyr Tudful) | |
|---|---|
| **Ebrill 2015 - Mawrth 2016** | 1.02% |
| **Ebrill 2016 - Mawrth 2017** | 1.45% |
| **Cynnydd** | 0.43% |

O ganlyniad i'r gwahaniaethau cyfredol yn y broses rhwng asesiadau gwasanaethau i blant RhCT a Merthyr Tudful, ni fyddai cymariaethau uniongyrchol o'r data uchod yn cynhyrchu unrhyw ganlyniadau ystyrlon.

**LLEIHAU ATGYFEIRIADAU AILADRODDUS (OEDOLION)**

Mae canran yr adroddiadau ailadroddus ar gyfer Diogelu Oedolion yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi cynyddu dros 5% o'i chymharu â data perfformiad 2015/16 (o 38% i 43.7%). Ar gyfer Merthyr Tudful mae'r ganran yma wedi cynyddu 3% (o 19% i 22%). Mae'r cynnydd yn deillio o bryderon gwahanol yn ymwneud ag Oedolion mewn Perygl. Yn aml maen nhw'n gymhleth ac mae angen ymyrraeth diogelu arnyn nhw.

**TRAFODAETHAU CAM-DRIN DOMESTIG DYDDIOL YN YR HWB DIOGELU AMLASIANTAETH**

Caiff gwybodaeth ei rhannu a chaiff mesurau ymyrraeth gynnar eu rhoi ar waith yn y trafodaethau yma. Mae hyn yn rhoi cyfle i asiantaethau drafod materion cysylltiedig o ran amddiffyn plant ac oedolion.

Mae'r ffigyrau ar gyfer y trafodaethau dyddiol fel a ganlyn:

| | Merthyr Tudful | Rhondda Cynon Taf | Cyfansymiau |
|---|---|---|---|
| **2015/16 (dechreuodd ym mis Medi)** | 111 | 375 | 486 |
| **2016/17** | 221 | 627 | 848 |

Caiff cyfarfodydd ffurfiol MARAC eu cynnal ar gyfer y rhan fwyaf o'r achosion yma. Er hynny, mae'r cyfarfodydd yma bellach yn fwy cryno, a hynny am fod y penderfyniadau a'r camau gweithredol eisoes wedi'u trafod/rhoi ar waith yn ystod y trafodaethau dyddiol.

Mae data cenedlaethol wedi dangos bod nifer yr achosion a drafodwyd yn MARAC wedi cynyddu yng Nghwm Taf, o 707 yn 2015/16 i 758 yn 2016/17. Serch hynny, roedd nifer yr achosion ailadroddus is o lawer na'r ffigur cenedlaethol o 25%, sef 14% yn 2015/16 ar gyfer RCT ac 14% ym Merthyr Tudful. Yn yr un modd, ym 2016/17, mae hyn wedi gostwng ymhellach i 12% yn RhCT a 14% ym Merthyr Tudful. Y ffigur cenedlaethol oedd 26%. Mae'r ffigurau yma hefyd yn sylweddol is o

gymharu â'r ffigwr a argymhellir gan Safe Lives (yr elusen genedlaethol sy'n ymroddedig i roi terfyn ar drais yn y cartref), sef 28% - 40% ym mhob blwyddyn.

Mae MARAC hefyd yn cael ei gefnogi trwy brosiect Drive. Mae'r prosiect wedi'i anelu at nodi Troseddwyr Trais yn y Cartref yn erbyn Dioddefwyr Risg Uchel ac i roi cynllun rheoli achos yn ei le gyda'r nod o weithio gyda'r dioddefwr a'r troseddwr i atal achosion pellach o drais yn y cartref.

## ASTUDIAETHAU ACHOS HWB DIOGELU AMLASIANTAETH CWM TAF

### Astudiaeth Achos Plant

- Atgyfeiriad i MASH ynghylch pryderon am ddau o blant ifainc gan fod eu Mam yn dioddef problemau iechyd meddwl ac yn clywed lleisiau yn dweud iddi niweidio un o'r plant.
- Rhannwyd gwybodaeth amlasiantaeth o fewn ychydig oriau, datgelodd hyn fod yna hefyd bryderon trais yn y cartref ynghyd ag achosion amddiffyn plant blaenorol yn ymwneud ag esgeulustod ac amodau cartref gwael.
- Roedd trafodaeth strategaeth y MASH yn cynnwys partneriaid Iechyd a galwadau cynadledda i'r Garfan Iechyd Meddwl Cymunedol i drafod diagnosis ar gyfer y fam. Yn ogystal â hyn, gwnaed cyswllt â'r awdurdod lleol cyfagos gan fod cysylltiad perthnasol blaenorol â'r teulu.
- Dechreuodd gweithdrefnau Adran 47 Amddiffyn Plant i flaenoriaethu trefniadau diogelu ar unwaith ar gyfer plant.

### Astudiaeth Achos Oedolion

- Datgeliad trwy ymweliad y Gwasanaethau i Blant bob Mam y plentyn wedi dioddef camdriniaeth rywiol tra roedd hi'n blentyn gan ei thad a'i hewythr.
- Cafodd Gwasanaeth i Oedolion y MASH ei hysbysu am y datgeliad a dechreuodd y broses o rannu gwybodaeth amlasiantaeth ar unwaith
- Cafodd cymorth i'r dioddefwraig ei weithredu ynghyd â threfniadau diogelu ar gyfer wyres y dioddefwraig. Tan y pwynt hwn, roedd y plentyn wedi cael cysylltiad rheolaidd ag un o'r troseddwyr.
- Dechreuodd ymchwiliad troseddol yn gynnar yn y broses, lle cafodd y troseddwyr eu harestio a'r achosion yn parhau.

### Astudiaeth Achos Cam-drin Domestig

- Roedd dioddefwraig trais yn y cartref yn destun stelcio ac aflonyddu parhaus gan ei chynbartner. Roedd y Dioddefwraig hefyd yn gleient y Gwasanaethau i Oedolion ac roedd ganddi anghenion cymorth parhaus.

- Rhannwyd gwybodaeth yn y MASH, gan gynnwys gwybodaeth newydd o'r Heddlu bod gan y troseddwr euogfarnau blaenorol a oedd yn cynnwys meddu ar arfau a sawl trosedd o aflonyddu.

- Roedd y troseddwr wedi dianc i ardal arall yn Lloegr, felly cysylltwyd â'r Heddlu ar gyfer yr ardal honno a rhannu'r wybodaeth gyda nhw.

- Cafodd yr achos ei drafod yn ystod trafodaeth ddyddiol ynghylch materion cam-drin domestig ac fe'i cyfeiriwyd at MARAC. Erbyn i'r cyfarfod MARAC ddigwydd roedd y tramgwyddwr wedi cael ei ddarganfod a'i arestio. Roedd y Gwasanaethau i Oedolion a'r gwasanaeth IDVA yn parhau i gynorthwyo'r dioddefwr.

- O ganlyniad i'r modd dynamig y mae MARAC yn cael ei drin yng Nghwm Taf, daeth yr ymyrraeth i ddioddefwyr oddi wrth y gwasanaethau cymorth o fewn 24 awr. Yn ogystal ag ymateb prydlon gan wasanaethau gorfodi'r gyfraith a arweiniodd at y troseddwr yn cael ei arestio o fewn yr amserlen arferol y byddai achos confensiynol wedi'i glywed trwy'r llwybr MARAC traddodiadol.

**<u>YMGYNGHORIAD AG ASIANTAETHAU PARTNER</u>**

Yn 2015 a 2016 gwahoddwyd unigolion sy'n cynrychioli ystod o asiantaethau partner i gymryd rhan mewn arolwg ymgynghori. Pwrpas yr arolwg oedd asesu eu dealltwriaeth a'u canfyddiadau o'r MASH. Yn 2017, cafodd yr arolwg ei gynnal am y trydydd tro, ac mae'r ymatebion o'r arolwg ymgynghori diweddaraf yn dangos bod y rhan fwyaf o ymatebwyr yn teimlo bod y MASH wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i ddiogelu yng Nghwm Taf. Nodir y casgliadau allweddol isod (o gyfanswm o 91 o ymatebion):

- Roedd 94% o'r farn bod y MASH wedi gwella diogelu yng Nghwm Taf, o'i gymharu â 87% yn arolwg y flwyddyn flaenorol

- Roedd 83% allan o'r 91 o ymatebwyr o'r farn fod rhannu gwybodaeth yn effeithiol

- Roedd 82% allan o'r 91 o ymatebwyr o'r farn fod rheoli risg rhwng asiantaethau yn effeithiol

## iv. Beth sydd ar ôl i'w wneud mewn perthynas â'r Hwb Diogelu Amlasiantaeth?

Mae adolygiad a datblygiad parhaus y MASH yn cael ei yrru trwy Fwrdd Gweithredol MASH ar ran Bwrdd Diogelu Cwm Taf. Yn 2017/18 bydd gwaith pellach yn cael ei gyflawni er mwyn symleiddio gwaith MASH. Bydd adolygiad yn cael ei gynnal i archwilio sut y gellir cyfuno'r gwaith o weinyddu'r broses ddiogelu MASH i roi mwy o wytnwch, prosesau cyffredin a phroses pennu trothwy o risg sy'n fwy cyson.

# Swyddogaethau Diogelu ar y Cyd

Mae llawer o gyflawniadau'r Bwrdd wedi bod o fudd i blant ac oedolion sydd mewn perygl. Mae'r Bwrdd yn parhau i chwilio am gyfleoedd i wella diogelu ar gyfer pob oedran, a dros y flwyddyn ddiwethaf bu nifer o fentrau ar y cyd yn digwydd.

## i. Beth oedd yn nod ar gyfer 2016/17?

Nododd y Bwrdd y canlyniadau blaenoriaeth canlynol ar gyfer 2016/17 Mewn perthynas â swyddogaethau diogelu sy'n berthnasol i blant ac oedolion:

Mae'r Bwrdd yn rhagweithiol wrth ymgysylltu â'i gymunedau a rhoddir cyfle i blant, pobl ifainc ac oedolion gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd.

Mae'r Bwrdd yn sicrhau bod hyfforddiant diogelu rhyngasiantaeth a lledaenu dysgu ac ymchwil yn cael eu defnyddio i gefnogi gweithlu amlasiantaeth mwy hyderus a gwybodus.

Mae'r Bwrdd yn mynd ati i ddilyn cyfleoedd i weithio gydag asiantaethau, partneriaethau a byrddau eraill sy'n cefnogi'i amcanion

## ii. Cysylltu, Cyfranogi a Chyfathrebu

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd fynd ati i chwilio am gyfleoedd i godi ymwybyddiaeth o ddiogelu a bod gan blant, pobl ifainc ac oedolion gyfleoedd i gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd.

Yn unol â hyn, mae'r Bwrdd wedi datblygu Strategaeth Gyfathrebu a Strategaeth Cyfranogiad ategol i ddarparu fframwaith i gyflawni'r swyddogaeth bwysig hon. Roedd y gweithgareddau a'r digwyddiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- Creu Is-grŵp Ymgysylltu, Cyfranogiad a Chyfathrebu
- Cyfranogiad yn cael ei gynnwys fel eitem sefydlog ar agenda'r Bwrdd
- Cynhaliwyd adolygiad o wefan Bwrdd Diogelu Cwm Taf gan bobl ifainc ym Merthyr Tudful.
- Helpodd plant a phobl ifainc i ddylunio eitemau hyrwyddo ar gyfer Wythnos Diogelu 2016.
- Sesiwn theatr rhyngweithiol ‘Spectacle’ ar gyfer plant a phobl ifainc yn trafod Ymwybyddiaeth Diogelu – wedi'i gynllunio gan blant a phobl ifainc ar gyfer Wythnos Diogelu.

- Dyluniodd defnyddwyr gwasanaeth RCT People First daflen hygyrch ar gyfer diogelu oedolion.
- Dyluniodd plant a phobl ifainc daflen ynghylch adrodd am bryderon.

Yn 2016 cynhaliodd y Bwrdd ei ail Wythnos Diogelu. Gweithiodd dros 40 o asiantaethau ar draws Cwm Taf ar y cyd i ddarparu cyfanswm o 72 o ddigwyddiadau yn ystod yr wythnos, roedd dros draean o’r digwyddiadau yn rhai cyhoeddus i gynnwys plant, pobl ifainc ac oedolion.

Cynhaliodd asiantaethau amrywiaeth o ddigwyddiadau i ymgysylltu â'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys:

- Ymwybyddiaeth twyll
- Diogelwch cyfrifiadurol
- Achlysur dysgu am faterion Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant
- Ymwybyddiaeth Trosedd Casineb
- Cyngor Trais yn y Cartref
- Deddfau amddifadu o ryddid a diogelu/iechyd meddwl
- Pobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol
- Ymwybyddiaeth Iechyd y Meddwl
- Ymwybyddiaeth o alcohol
- Perthnasoedd iach
- Gweithdai eithafiaeth

### iii. Hyfforddiant a Dysgu

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd sicrhau bod ymarferwyr yn yr ardal yn derbyn hyfforddiant diogelu i gefnogi gweithlu amlasiantaeth sy’n fwy hyderus a gwybodus.

Yn ystod 2016/17, cyflwynodd Partneriaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cwm Taf yr awdurdod lleol 113 o gyrsiau’n ymwneud â diogelu plant i 1,833 o gynrychiolwyr ar draws 14 o wahanol asiantaethau. Roedd yna 21 o gyrsiau hyfforddiant yn ymwneud â diogelu oedolion yn ystod y flwyddyn. Daeth 320 o bobl i’r cyrsiau o 7 asiantaeth wahanol. Ar ben hynn, derbyniodd 179 o bobl hyfforddiant yn trafod DoLS a Deddf Galluoedd Meddyliol.

Roedd yr anghenion dysgu a nodwyd yn cynnwys:

- Angen i ymarferwyr ddatblygu sgiliau wrth weithio gyda theuluoedd gelyniaethus
- Angen i system drosglwyddo achosion effeithiol fod yn ei lle pan fydd gweithiwr newydd
- Angen i gyfeirio achosion i lefel uwch pan nad yw risgiau'n cael eu lleihau A phwysigrwydd goruchwyliaeth i staff i reoli'r achosion yma

Cynhaliwyd un digwyddiad adborth ymarferwyr mewn perthynas â 2 oedolyn. Roedd y dysgu a rennir yn cynnwys:

Dylid ceisio ymyriadau amserol i alluogi cynllunio a chyflenwi gofal diogel

Pwysigrwydd cadw cofnodion da

Yr angen am gymhwyso'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn gywir

## iv. Cydweithio ag Asiantaethau, Partneriaethau a Byrddau eraill

Mae'r Bwrdd wedi bod yn rhagweithiol o ran cydweithio ac ymgynghori ag asiantaethau, partneriaethau a Byrddau eraill yn ystod 2016/17.

***Byrddau Diogelu Eraill***

Mae rhwydwaith sefydledig ar waith ledled Cymru i rannu dysgu, ymarfer da a mentrau Cymru gyfan. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd rhwng Rheolwyr Busnesau Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru bob dau fis, yn ogystal â gweithio ar y cyd i gyflwyno'r Wythnos Diogelu Genedlaethol flynyddol.

Mae’r Byrddau Diogelu rhanbarthol eraill yng Nghymru wedi dod i gytundeb i rannu Adolygiadau Arfer Plant ac Oedolion a gyhoeddwyd er mwyn rhannu dysgu a chynllunio rhagor o fentrau ar y cyd yn ystod y flwyddyn i ddod.

Mae ceisiadau am wybodaeth a chyfranogiad yn yr Adolygiadau Arfer Oedolion a'r Grŵp Ymateb Uniongyrchol wedi cynnwys cydweithio â rhai Byrddau Diogelu yn Lloegr, gan gynnwys Swydd Stafford, Milton Keynes, Dorset a Chaerlŷr.

Mae MASH Cwm Taf  wedi gweithio mewn partneriaeth â MASH Caerdydd sydd newydd ei sefydlu. Mae hyn wedi darparu arweiniad a chefnogaeth i MASH Caerdydd yn ystod gweithrediad y system rhannu gwybodaeth amlasiantaethol (MHub) a chyd-gysylltu â'r cyflenwr system ac adrannau TGCh yr asiantaethau.

Mae ymwelwyr eraill i'r MASH wedi cynnwys Cyngor Waltham Forest a'r Heddlu Metropolitan a dreuliodd ddau ddiwrnod yn arsylwi ar y MASH i wneud gwelliannau i'w strwythur MASH eu hunain.

***Partneriaethau Eraill***

<u>Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB)</u> - mae'r Bwrdd yn parhau i wneud cysylltiadau â'r PSB trwy Gyd-gadeiryddion Bwrdd Diogelu Cwm Taf a phroses adrodd.

<u>Partneriaeth Diogelwch Cymunedol (CSP)</u> - rheoli'r agwedd diogelu mewn perthynas â materion of the Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Trais yn y Cartref a Thrais Rhywiol. Mae'r Bwrdd yn sicrhau bod yna gynrychiolaeth ar y Grŵp Llywio

hwn. Yn ogystal, mae'r Uned Busnes Diogelu wedi cefnogi cydlyniad Adolygiad Lladdiad yn y Cartref ar ran y CSP.

Law yn Llaw at Iechyd Meddwl - cynrychiolaeth ar y bartneriaeth yma drwy gyfranogiad y Bwrdd Diogelu Cwm Taf ac aelodau'r Bwrdd yn y ffrydiau gwaith cysylltiedig.

***Llywodraeth Cymru***

Mae'r Bwrdd wedi cydweithio â Llywodraeth Cymru trwy gyfarfodydd Rheolwyr Busnesau Rhanbarthol, ymgynghoriadau a chyfranogiad mewn grwpiau eraill megis y Grŵp Gorchwyl Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant.

Cynhaliodd MASH Cwm Taf hefyd ymweliad gan Carl Sargeant AC (Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant) ym mis Tachwedd 2016. Yn dilyn ei ymweliad, ysgrifennodd Mr Sargeant at y MASH a dywedodd:

***Roedd yr ymweliad yn llawn gwybodaeth, ac roeddwn i’n falch iawn i weld yr ymroddiad a’r chydlynu rhwng asiantaethau a phartneriaid. Mae diogelu yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac roedd fy ymweliad yn dangos manteision un pwynt mynediad ar gyfer holl bryderon yn ymwneud â diogelu. Mae hyn yn gwneud y mwyaf o wybodaeth gyfunol yr holl asiantaethau er mwyn cadw plant ac oedolion sy'n adored i niwed yn ddiogel.***

***Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol***

Mae cynrychiolydd Cwm Taf o'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn mynychu cyfarfodydd Bwrdd Diogelu Cwm Taf ac yn gweithredu fel pwynt cyswllt o ran y dull cenedlaethol o ddiogelu.

***Diogelu'r Cyhoedd - Awdurdod Lleol***

Cytunwyd ar ddull cydweithredol gyda chydweithwyr Safonau Masnach yr awdurdod lleol i ddiogelu trigolion sy’n agored i niwed rhag drwg o ganlyniad i ‘Sgamiau’ dros y ffôn.

***Comisiynydd Plant***

Cafwyd ymateb mewn perthynas ag ymholiadau yn ymwneud â Sicrhau'r Dystiolaeth Orau wrth gyfweld a'r arfer presennol yng Nghwm Taf. Mae hefyd gynrychiolaeth Cwm Taf mewn cyfarfodydd Bwrdd Crwn y Comisiynydd Plant.

## v. Protocolau a Gweithdrefnau

Mae'r Bwrdd yn annog datblygu ymagweddau ar y cyd at ddiogelu o ran plant ac oedolion. Yn 2016/17 datblygwyd y protocolau ar y cyd canlynol:

**Datrys Pryderon ynghylch Arferion Diogelu Rhyngasiantaethol** - cefnogi ymarferwyr wrth ddod o hyd i benderfyniad pan fydd ganddyn nhw anghytundeb neu bryder proffesiynol. Bydd data monitro ar gael yn Adroddiad Blynyddol 2017/18.

**Datgelu Cam-driniaeth fel Plentyn gan Unigolyn sydd bellach yn Oedolyn** - darparu arweiniad i ymarferwyr ymateb yn briodol pan fydd oedolion yn datgelu eu bod nhw wedi dioddef camdriniaeth tra'n blentyn

**Protocol ar gyfer Ymateb Uniongyrchol i Ddigwyddiadau Critigol** - i roi cymorth i reoli canlyniadau digwyddiadau critigol yng Nghwm Taf er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n cael eu heffeithio yn cael eu cefnogi yn effeithiol, gan gynnwys ffrindiau, teulu, gweithwyr proffesiynol a'r gymuned ehangach.

## vi. Dal Asiantaethau i Gyfrif

Mae'r holl asiantaethau partner statudol gofynnol yng Nghwm Taf wedi'u cynrychioli ar y Bwrdd, Pwyllgorau Gweithredol ac Is-grwpiau. Caiff bresenoldeb ei fonitro yn y cyfarfodydd hyn.

Rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2017, cynhaliwyd pedwar cyfarfod y Bwrdd. Roedd presenoldeb pob un o'r asiantaethau partner fel a ganlyn:

| ASIANTAETH | CANRAN PRESENOLDEB |
|---|---|
| **Gwasanaethau i Blant RhCT** | 100% |
| **Gwasanaethau i Oedolion RhCT** | 100% |
| **Tai / Diogelwch y Cyhoedd RhCT** | 75% |
| **Addysg RhCT** | 100% |
| **Gwasanaethau i Blant  Merthyr Tudful** | 100% |
| **Gwasanaethau i Oedolion  Merthyr Tudful** | 100% |
| **Tai / Diogelwch y Cyhoedd Merthyr Tudful** | 50% |
| **Addysg Merthyr Tudful** | 0% |
| **Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf** | 100% |
| **Heddlu De Cymru** | 100% |
| **Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol** | 100% |
| **Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru** | 50% |
| **Y Trydydd Sector** | 100% |
| **Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc Cwm Taf** | 25% |
| **Iechyd Cyhoeddus Cymru** | 50% |
| **Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru** | 25% |
| **Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol** | 75% |

Gofynnir i asiantaethau unigol adrodd i'r Bwrdd ar ganlyniad adolygiadau ac arolygiadau asiantaethau mewnol i gefnogi her effeithiol ar lefel strategol aml-asiantaeth. Yn 2016/17, roedd hyn yn cynnwys:

- Arolygiad AGGCC o Ddiogelu yn Rhondda Cynon Taf
- Adroddiad Arolygu EM - Prawf
- Arolygiadau Gwendidau Mewnol Heddlu De Cymru
- Fframwaith Canlyniadau Ansawdd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
- Archwiliad Iechyd Cyhoeddus Cymru o CP Medicals

Roedd cyfrifoldebau penodol y partneriaid yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf:
    - Cadeirydd y Pwyllgor Gweithredol i Blant
    - Cadeirydd y Grŵp Achosion Heriol
    - Aelod o'r Panel Cwynion x 2
    - Hyrwyddwr Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed
    - Cadeirydd y Grŵp Adolygu i Oedolion

- CBSMT
    - Cadeirydd y Grŵp Protocolau a Gweithdrefnau
    - Cyd-Gadeirydd y Bwrdd
    - Cyd-Gadeirydd Grŵp Gweithredol yr Hwb Diogelu Amlasiantaeth
    - Cadeirydd y Tasglu Cam-Fanteisio'n Rhywiol ar Blant a'r Hyrwyddwr Cam-Fanteisio'n Rhywiol ar Blant
    - Cadeirydd Annibynnol y Panel Adolygu Arfer i Oedolion
    - 2 x Adolygwyr Annibynnol Adolygu Arfer i Oedolion
    - Aelod o'r Panel Cwynion x 2
    - Hyrwyddwr Esgeuluso
    - Cadeirydd Pwyllgor Gweithredol DOLS

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
    - Cadeirydd yr Is-grŵp Sicrhau Ansawdd i Blant
    - Cadeirydd yr Is-grŵp Sicrhau Ansawdd i Oedolion
    - Cadeirydd y Pwyllgor Gweithredol i Oedolion
    - Cadeirydd yr Is-grŵp Ymgysylltu, Cyfranogiad a Chyfathrebu
    - Cyd-Gadeirydd y Bwrdd
    - Gwesteiwr Uned Fusnes Bwrdd Diogelu Cwm Taf
    - 2 x Adolygwyr Annibynnol Adolygu Arfer i Oedolion
    - Cadeirydd Annibynnol Adolygu Arfer i Oedolion
    - Hyrwyddwr i Blant sy'n Derbyn Gofal

- Heddlu De Cymru
    - Cadeirydd y Grŵp Hyfforddiant a Dysgu (tan fis Ionawr 2017)
    - Cadeirydd Pwyllgor Gweithredol yr Hwb Diogelu Amlasiantaeth

- Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc Cwm Taf:
    - Cadeirydd y Grŵp Hyfforddiant a Dysgu (o fis Chwefror 2017)
    - Cadeirydd Annibynnol y Panel Fforwm i Ymarferwyr Aml-Asiantaeth
    - Aelod o'r Panel Cwynion x 2

- Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
    - Aelod o'r Panel Cwynion x 2

- Sector Gwirfoddol
    - Cadeirydd y Grŵp Adolygu i Blant
    - 2 x Adolygwyr Annibynnol Adolygu Arfer i Oedolion, Iechyd Cyhoeddus Cymru

# Rheoli Ein Hadnoddau yn 2016/17

Yn 2016/17 cytunodd y Bwrdd ar fformiwla ariannu er mwyn i bob partner statudol gyfrannu at gostau rheoli busnes y Bwrdd. Roedd hyn yn galluogi'r Uned Busnes i gynyddu ei gapasiti staffio i gefnogi swyddogaethau'r Bwrdd. Mae hefyd wedi bod yn gymorth i brynu deunyddiau hyrwyddo ac i gynnal digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth a rhannu dysgu.

# Blaenoriaethau ar gyfer 2017/18

Ym mis Ionawr 2017 cynhaliodd y Byrddau Plant ac Oedolion eu hail Ddiwrnod Datblygu ar y Cyd i nodi cyflawniadau'r Bwrdd yn 2016/17 ac i werthuso a chytuno ar y blaenoriaethau ar gyfer 2017/18.

Cytunwyd ar y blaenoriaethau hyn yn seiliedig ar feysydd i'w datblygu a'u gwella, gan ystyried themâu sy'n dod i'r amlwg a gofynion statudol. Mae'r rhain wedi'u hymgorffori yng Nghynllun Blynyddol y Bwrdd ar gyfer 2017/18. Mae modd gweld y cynllun yma, www.cwmtafsafeguarding.org, neu drwy gysylltu â'r Uned Busnes Diogelu ar 01443 484523.

# Ydych chi'n pryderu am rywun?

Os ydych chi'n amau bod **plentyn neu berson ifanc** yn cael ei niweidio, neu mewn perygl o gael ei niweidio, mae dyletswydd arnoch chi i roi gwybod amdano ar unwaith. Mae pob galwad sy'n mynegi pryder am blentyn yn cael ei drin o ddifrif. Ffoniwch eich Carfan Diogelu leol ar y rhifau isod:

Rhondda Cynon Taf: 01443 425006
Ym Merthyr Tudful: 01685 725000

Oriau agor:
Llun – Iau: 8.30am – 5pm
Gwener: 8.30am – 4.30pm

Os ydych chi'n amau bod **oedolyn** yn cael ei niweidio, neu mewn perygl o gael ei niweidio, mae dyletswydd arnoch chi i roi gwybod amdano ar unwaith. Mae pob galwad sydd ynghylch pryderon am oedolion agored i niwed mewn perygl yn cael ei gymryd o ddifrif. Ffoniwch eich Carfan Diogelu leol ar y rhifau isod:

Rhondda Cynon Taf: 01443 425003
Ym Merthyr Tudful: 01685 725000

Oriau agor:
Llun – Iau: 8.30am – 5pm
Gwener: 8.30am – 4.30pm

I gysylltu â'r Gwasanaethau i Blant neu'r Gwasanaethau i Oedolion y tu allan i oriau'r swyddfa, dros y penwythnos ac ar wyliau banc, ffoniwch Garfan ar Ddyletswydd ar gyfer Argyfyngau Cwm Taf ar 01443 743665.

**Os ydych chi'n amau bod plentyn, person ifanc neu oedolyn mewn perygl uniongyrchol o niwed, ffoniwch 999 a siarad â'r Heddlu.**

Os ydych chi eisiau rhoi gwybod am ddigwyddiad lle does dim angen ymateb ar frys, neu os oes problem neu gwestiwn gyda chi, ffoniwch 101, sef rhif di-argyfwng 24 awr yr heddlu.
***Ffoniwch 101 pan fydd y digwyddiad yn llai pwysig na 999.***

## Cofiwch – mae diogelu yn fater i bawb!

**Am ragor o wybodaeth a chyngor ewch i: www.cwmtafsafeguarding.org**

# Rhestr Termau

**Sicrhau'r Dystiolaeth Orau**
Arfer da wrth gyfweld â dioddefwyr a thystion, ac o ran paratoi eu paratoi i gyflwyno'r dystiolaeth orau yn y llys.

**Dull Asesu Esgeuluso**
Yn helpu gweithwyr proffesiynol i fesur ansawdd y gofal sy'n cael ei gynnig i blentyn.

**Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant**
Math o gam-drin rhywiol yw cam-fanteisio'n rhywiol ar blant. Mae plant sydd mewn sefyllfaoedd a pherthnasau peryglus yn derbyn rhoddion, arian neu anwyldeb (er enghraifft) am gyflawni gweithgareddau rhywiol neu am adael i eraill berfformio gweithgareddau rhywiol arnyn nhw.

**Plant sy'n Derbyn Gofal**
Bydd plentyn yn derbyn gofal gan awdurdod lleol os bydd llys yn rhoi gorchymyn gofal i osod y plentyn yn y system ofal, neu os bydd adran gwasanaethau i blant y cyngor yn gofalu am blentyn am fwy na 24 awr.

**Comisiynydd Plant**
Mae Comisiynydd Plant Cymru yn gweithio ar ran plant a phobl ifainc yng Nghymru o dan 18 oed, neu hyd at 25 oed os ydyn nhw wedi bod yn y system ofal. www.complantcymru.org.uk

**Partneriaeth Cymunedau Diogel**
Partneriaeth statudol i ddatblygu a gweithredu strategaethau i frwydro yn erbyn troseddau ac anrhefn, gan gynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol ynghyd ag unrhyw ymddygiad arall sy'n cael effaith andwyol ar yr amgylchedd lleol.

**Digwyddiad Argyfwng**
Digwyddiad, neu gyfres o ddigwyddiadau;

- Lle mae ymateb effeithiol ar unwaith yn gofyn am gydlyniad amlasiantaethol er mwyn rheoli bygythiad, risg a niwed; ac
- mae'n sydyn ac yn annisgwyl; ac
- mae wedi arwain at (neu y gallai fod wedi achosi) farwolaeth, anaf sy'n bygwth bywyd, neu amhariad difrifol a pharhaol i iechyd neu ddatblygiad; ac

- mae'n effeithio ar grŵp o unigolion a/neu'r gymuned ehangach.

**DEWIS**
Gwefan sydd yn cynnig gwybodaeth ynghylch lles yng Nghymru
www.dewis.cymru

**Adolygiad Dynladdiadau Domestig**
Mae Adolygiad Dynladdiadau Domestig yn adolygiad amlasiantaethol sydd wedi'i gynnal yn lleol lle mae rhywun 16 oed neu'n hŷn wedi marw (neu mae'n ymddangos ei fod wedi marw) o ganlyniad i drais, camdriniaeth neu esgeulustod gan:

- berson roedd yr unigolyn yn perthyn iddyn nhw, neu os oedd yr unigolyn wedi bod mewn perthynas bersonol agos; neu,
- aelod o'r un aelwyd â'r unigolyn.

**Cymorth fel y bo angen**
Gwasanaeth am ddim sy'n cynnig cymorth o ran tai i bobl sy'n agored i niwed. Mae'r cymorth ar gael am gyfnodau byr, o bythefnos hyd at ddwy flynedd.

**Gwasanaeth Ymgynghorwyr Annibynnol ar Drais yn y Cartref**
Ymgynghorwyr Annibynnol ar Drais yn y Cartref sy'n mynd i'r afael â diogelwch y dioddefwyr â risg uchel o niwed gan bartneriaid agos, cynbartneriaid neu aelodau o'r teulu er mwyn sicrhau eu bod nhw, ynghyd ag unrhyw blant sydd ganddyn nhw, yn ddiogel.

**Gofal gan Berthnasau**
Gofal gan Berthnasau yw trefniad lle bydd plentyn yn mynd i fyw gyda pherthynas neu ffrind i'r teulu pan na fydd y rhieni yn gallu gofalu amdanyn nhw.

**Cynhadledd Asesiad Risg Amlasiantaeth (MARAC)**
Cyfarfod misol ar gyfer rheoli risg, lle mae gweithwyr proffesiynol yn rhannu gwybodaeth am achosion risg uchel o drais domestig a cham-drin ac yn rhoi cynllun rheoli risg ar waith.

**Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol**
Cynnig cymorth a chyngor i fyrddau diogelu ac yn adrodd ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau o ran diogelu plant ac oedolion yng Nghymru.

**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**
Improves the Gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn yr ardal drwy gryfhau'r cydweithio rhwng yr holl wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. www.eincwmtaf.cymru

# ATODIAD 1 - AELODAETH Y BWRDD

**Atgyfeiriadau Ailadroddus**
Atgyfeiriadau sy'n cael eu gwneud o fewn amserlen benodol yn dilyn atgyfeiriad cynharach; cyfnod o 12 mis fel arfer.

**Safe Lives**
Elusen genedlaethol sy'n ymroddedig i roi terfyn ar drais yn y cartref am byth
www.safelives.org.uk

**Adran 47**
O dan Adran 47 yn Neddf Plant 1918, os bydd plentyn o dan Warchodaeth yr Heddlu, yn destun Gorchymyn Amddiffyn Brys, neu os oes sail resymol dros amau bod plentyn yn dioddef neu'n debygol o ddioddef Niwed Sylweddol, fe gychwynnir Ymchwiliad Adran 47. Mae hyn yn galluogi'r awdurdod lleol i benderfynu a oes angen iddyn nhw gymryd unrhyw gamau pellach i ddiogelu a hyrwyddo lles y plentyn.

**Fframwaith Asesu'r Risg o Gamfanteisio Rhywiol**
(SERAF) - tynnu ar dystiolaeth o wendidau gam-fanteisio rhywiol a dangosyddion risg.

**Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**
Y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yw'r gyfraith ar gyfer gwella lles pobl sydd eisiau gofal a chymorth, a chynhalwyr sydd angen cymorth.

**Cyfarfod Strategaeth**
Cyfarfod i weithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill i gynllunio'r camau nesaf mewn perthynas ag achos.

**Cyrff Goruchwylio**
Y corff goruchwyliol yw'r awdurdod lleol neu'r bwrdd iechyd lleol sy'n gyfrifol am ystyried ceisiadau colli rhyddid, comisiynu asesiadau statudol ac awdurdodi colli rhyddid lle bydd yr asesiadau i gyd yn cytuno.

**Siarad â Fi 2**
Strategaeth a chynllun gweithredu Llywodraeth Cymru i leihau hunanladdiad a hunan-niweidio yng Nghymru

| TEITL | ASIANTAETH |
| --- | --- |
| Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant<br>(Cyd-gadeirydd)<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai Cymunedol<br>Rheolwr Gwasanaeth Diogelu Oedolion<br>Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau i Oedolion<br>Pennaeth Diogelu A Chymorth (Phlant)<br>Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes<br>Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau i Blant<br>Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol - Gofal yn y Gymuned a Phlant | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cyd-gadeirydd)<br>Prif Reolwr Diogelu<br>Prif Swyddog - Adfywio'r Gymuned<br>Pennaeth Gwasanaeth (Dysgu)<br>Pennaeth y Gwasanaethau i Blant<br>Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion<br>Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| Cyfarwyddwr Nyrsio, Bydwreigiaeth a Chleifion<br>Gwasanaethau<br>Pennaeth Diogelu | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf |
| Uwch-arolygydd<br>Rheolwr Amddiffyn Pobl Agored i Niwed Annibynnol | Heddlu De Cymru |
| Prif Swyddog Cynorthwyol | Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| Prif Weithredwr Cynorthwyol | Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru |
| Prif Swyddog | Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful |
| Rheolwr Busnes BDCT | Uned Busnes Bwrdd Diogelu Cwm Taf |
| Pennaeth y Gwasanaeth | Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc Cwm Taf |
| Cyfarwyddwr / Cadeirydd Interlink | TEDS (Gwasanaethau Triniaeth ac Addysg sy'n ymwneud â Chyffuriau) |
| Nyrs Dynodedig (Carfan Diogelu Cenedlaethol) | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Ansawdd, | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau |

# ATODIAD 2 - STRWYTHUR Y BWRDD

